

AT SYLW HOLL DELYNORION EIN GWLAD!


Telynor Cymru 2016



John Roberts 'Telynor Cymru' (1806-1894)

Neges a Gwahoddiad *gan* Clera Cymdeithas Offerynnau Traddodiadol Cymru

Yn 2016, byddwn yn dathlu deucanmlwyddiant geni John Roberts 'Telynor Cymru' y telynor Sipsi Cymreig enwog ac un o'r ffigurau pwysicaf yn ein traddodiad gwerin.



Trwy gynllun **Telynor Cymru 2016**, bydd Clera yn trefnu rhaglen o weithdai i delynorion ar draws Cymru yn ystod 2015 er mwyn eu hyfforddi i chwarae yn null telyn y Sipsiwn Cymreig.

Bwriad y brosiect hyfforddi yma fydd creu digon o 'delynorion Sipsi' i roi perfformiadau o'r gerddoriaeth yn ystod 2016.

Hoffech chi, neu gyfaill sy'n delynor(es) ymuno â ni?

John Roberts a'i deulu

Yn or-wŷyr i Abram Wood ei hun ('Brenin y Sipsiwn'), roedd John Roberts o waed cymysg, hanner Sipsi a hanner Cymro, ac roedd yn hynod falch o ddwy ochr ei linach. Yr un fath â Sipsiwn dros y byd, roedd teulu Abram Wood yn gerddorion o fri, ac wrth gwrs yma yng Nghymru, daethant yn enwog iawn am ganu'r Delyn Deires. John Roberts 'Telynor Cymru' oedd yr enwocaf ohonynt.

Roedd yn delynor ac yn impresario enwog yn ystod y 19^{eg} ganrif, yn arddel cerddoriaeth Gymreig a'r Delyn Deires yn arbennig, a chyda'i feibion, fe ffurfiodd y 'grŵp gwerin' swyddogol gyntaf o'r enw *The Original Cambrian Minstrels* i berfformio ar draws Cymru a'r Gororau. Byddai ef a'i feibion yn cystadlu efo cryn lwyddiant yn yr Eisteddfodau o bryd i'w gilydd, ac yn derbyn croeso yn nhai'r bonedd i berfformio yn aml. Roedd nifer o'r teulu wedi perfformio yn Llanofer, cartref Gwenynen Gwent, a fyddai bob amser yn gefnogol iawn i'r Delyn Deires a cherddoriaeth Gymreig. Un tro, fe berfformiodd John a'i saith mab ac un nai ar naw telyn o flaen y Frenhines Victoria yn Neuadd Palé, ger y Bala, ar ymweliad ganddi i Gymru un flwyddyn. Ymgartrefai John a'i deulu yn y Drenewydd yn 1850, a dyddiau Sul byddent i'w clywed yn canu ar strydoedd y dre, neu yng ngwesty'r 'Bear' gerllaw. Yn ystod y gaeaf byddent weithiau yn canu ar lannau'r Hafren i drigolion y dre gael sglefrio pan fyddai'r afon wedi rhewi. Ond yn ystod misoedd yr haf, byddai eu gwaed Romani yn codi, a byddent yn codi pac, gyda'u telynau mewn cert tu cefn iddynt, i grywdro'r wlad i berfformio. Cysgent mewn pebyll, neu mewn ysguboriau, gan bysgota yn ystod y dydd, a chanu eu telynau min nos.

O safbwynt gerddorol, Telynorion *Cymreig* arferol oedd y Sipsiwn, a arferai'r grefft o delynori yr un fath ag y gwnâi eu cyd-Gymry. Ond un agwedd bwysig ar eu crefft i ni heddiw ym myd y Delyn Werin Gymreig, oedd y byddai ganddynt ddull arbennig o ddehongli a chwarae alawon dawnsio ar y delyn, agwedd na welir fawr arni gan delynorion Cymru heddiw. Yn yr alawon dawnsio hyn y clywn yr ysbryd wyllt, danllyd a gysylltir fel arfer gyda'r Sipsiwn, y 'tân-gwyllt' hudolus, cymhellol, neu'r '*Enaid*' fel byddai teulu Roberts yn dweud!

Fe basiwyd y dechneg arbennig yma ymlaen drwy genedlaethau'r teulu mewn traddodiad llafar di-dor i lawr hyd at or-wyres Telynor Cymru, Eldra Jarman (née Roberts). Byddai bob amser yn falch iawn o nodi mai hi oedd y chweched (os nad seithfed) genhedaleth o deulu Wood/Roberts i ganu'r delyn. Fel y gŵyr nifer ohonoch mae'n siŵr, mor ffodus ydym, na wnaeth yr alawon yma ddim marw gydag Eldra yn 2001. Yn hael iawn, mi basiodd yr alawon a thraddodiad teulu Roberts i ddwylo (yn llythrennol!) Robin Huw Bowen, prif delynor gwerin Cymru heddiw ac un o sylfaenwyr Clera, sy'n adnabyddus am eu chwarae.



*Wel, delynorion, oes gennych ddiddordeb? A fuasech yn hoffi bod yn rhan o'r brosiect yma a dysgu hen grefft telynorion Sipsi Cymru?
Darllenwch ymhellach!*

Gweithdai hyfforddi a'r maes llafur



Mae Clera yn trefnu rhaglen o weithdai hyfforddi i ddysgu'r alawon yma a'r dull o'u dehongli ar y delyn. Bydd y gweithdai yn digwydd ar draws Cymru yn ystod gweddill 2015, o dan arweiniad Robin Huw Bowen a nifer o diwtoriaid eraill. Os hoffech fod yn rhan, neu os ydych yn gwybod am unrhyw delynorion a fydd â diddordeb, yna cysylltwch â ni i gael bod ar ein rhestr e-bostio, a chewch wybod pa bryd ac yn lle bydd y gweithdai yn digwydd.

Dysgu 'wrth y glust' fydd y modd dysgu yn y gweithdai, sef dangos, gwrando, gwylio, ac yna gopïo, gan efelychu hen ddull y Sipsiwn o wneud. Bydd pob croeso i hyfforddeion ddefnyddio dulliau recordio i'w cynorthwyo. Ond rydym hefyd wrthi yn sefydlu gwefan arbennig i'r cynllun, fydd yn gweithredu fel bâs adnoddau i'r hyfforddi, lle gellir gweld clipiau fideo o'r alawon a dadansoddiadau araf ohonynt yn cael eu chwarae. Bydd ffeiliau mp3, a modd yn y pen-draw i lawrlwytho nodiant. Bydd y wefan hefyd yn cynnal calendar o'r digwyddiadau.

Rydym wedi paratoi crynodeb o'r hyn yr ydym yn ei ddisgwyl gan y rhai sy'n cymryd rhan o ran profiad/gallu a'r math o delyn a ddefnyddir. Oherwydd natur draddodiadol y gerddoriaeth ac oherwydd amserlen y gwaith, bydd angen i unrhyw un sy'n dymuno cymryd rhan gyfarfod â'r amodau/anghenion a restrir isod.

Sylwer hefyd na fydd y gweithdai yn addas i ddechreuwyr na chwaraewyr elfennol.

Am y wybodaeth diweddaraf, ewch at:

**www.clera.org
www.telynor.cymru
www.sesiwn.com**

Am ragor o wybodaeth am y Sipsiwn Cymreig darllenwch:

Jarman, A.O.H. & Eldra: *Y Sipsiwn Cymreig*, Gwasg Prifysgol Cymru, 1979
Jarman, A.O.H. & Eldra: *The Welsh Gypsies, The Children of Abram Wood*, UWP, 1991
Roberts, E. Ernest: *John Roberts, Telynor Cymru*, Gwasg Gee, Dinbych, 1978
Roberts, E. Ernest: *With Harp, Fiddle and Folk-tale*, E. Roberts, Newtown, 1981
Sampson, John: *The Dialect of the Gypsies of Wales*, Clarendon Press, Oxford, 1926
Yates, Dora: *My Gypsy Days*, Phoenix House, London, 1953

<http://www.valleystream.co.uk>
<http://wbo.llgc.org.uk/cy/c-WOOD-SIP-1500.html>
<http://yba.llgc.org.uk/cy/c-ROBE-JOH-1816.html>
<http://www.gypsyjib.com/page/Wood+family+Wales>



Amodau/Anghenion:

- Disgwylir i bob cyfrannog feddu ar ei delyn/ei thelyn ei hun i'w defnyddio yn ystod y brosiect, a honno i fod naill ai yn:
 - Delyn fach/Geltaidd,
 - Hen delyn bedal (ee: Erard Grecian/Gothic, neu gyffelyb)
 - Delyn bedal fach (ee: Salvi Daphne 40 – ond *nid* Daphne 47/47S, etc.)
 - Deires Gymreig,
- O ran naill ai maint, sain, neu olwg, ni fydd y mathau isod o delyn yn addas:
 - Telyn bedal fawr, gerddorfaol, fodern
 - Telyn fach electronig (a glymir i'r corff)
 - Telyn wrachiïd
 - Telyn tannau metal
 - Telynau o America Ladin
- Dylai pob telyn fod â chwmpas **C₁ – G¹¹** o leiaf (tua 3 wythawd a hanner)
- Dylid medru ei thiwnio i **C-fwyaf (A-440)**, a'i chanu'n argyhoeddiadol yn y cyweirnod hwnnw, (hy: os ydych fel arfer yn cyweirio'ch telyn i Eb, rhaid sicrhau bod llafnau neu bedalau'r delyn yn gweithredu'n iawn fel bod y delyn yn swinio'n iawn yn C-fwyaf wrth chwarae)
- Anelir yr hyfforddi at chwaraewyr o **safon Gradd 3 o leiaf**, ond byddwn yn ystyried cynnwys chwaraewyr o lefel is, os ydynt â gwir ddiddordeb a bod eu hathrawon yn gytûn eu bod yn ddisgyblion digon galluog ac addawol, ac y byddant yn elwa ar y profiad

Nid yw'r brosiect wedi anelu at ddechreuwr neu at chwaraewyr elfennol.

Disgwylir i bob cyfrannog:

- fedru tiwnio ei delyn/ei thelyn ei hun (gyda chymorth peiriant os dymunir)
- fod yn barod i geisio dysgu 'wrth-y-glust', ac nid i ddibynnu ar nodiant ar bapur yn unig
- ymroi i ddysgu'r darnau a'u hymarfer, a medru eu perfformio **heb gopi**, gan gadw mewn cof y nod o'u perfformio yn 2016 fel rhan o ensemble. (Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu y bydd rhaid i bob un hyfforddai gymryd rhan yn y perfformiadau terfynol hyn, ond iddynt barchu mai dyma yw nod y cynllun.)

Rydym yn ffodus iawn i fod wedi sicrhau nawdd hael iawn i'r cynllun yma gan Gyngor Celfyddydau Cymru ac yn ddiolchgar iawn iddynt am eu cymorth.

